

# ADRODDIAD BLYNYDDOL



2016-17

# Cynnwys

<b>Rhagair.....</b>	<b>tud 3</b>
<b>Uchafbwyntia'r Flwyddyn.....</b>	<b>tud 4</b>
<b>Dangosydd Strategaeth Iaith 2016-17.....</b>	<b>tud 7</b>
<b>Strwythur Rheoli a Staffio Menter Iaith Conwy .....</b>	<b>tud 9</b>
<b>Crynhodeb Ariannol 16-17.....</b>	<b>tud 11</b>
<b>I Gloi.....</b>	<b>tud 14</b>

# Rhagair

Eto fyth bu'n gyfnod heriol eto i MIConwy gyda thoriadau yn effeithio ar ein harianwyr sydd yn ei dro'n golygu llai o arian i MIConwy weithredu cynlluniau. Nid oedd yn bosib i ni neud parhau ein cynlluniau o dan nawdd y Cynllun Datblygu Gwledig oherwydd nid oedd modd cynnig grantiau uniongyrchol i buddiolwyr. Hefyd roedd y cynllun yn hwyr yn cychwyn ac ddryslud iawn ar lefel lleol o rhan y broses o gyflwyno ceisiadau. Felly gwelwyd lleihad sylweddol yn trosiant Menter Iaith Conwy.

Bydd rhaid i Cwmni Cyfieithu Cymunedol rwan sefyll ar draed ei hyn can na fydd yna cymorth dal i gynorthwyo i ostwng prisiau i'r sector cymunedol.

Mae hefyd yn braf gweld y Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn parhau efo cyswllt agos efo nhw trwy ein swyddog Mentrau Cymdeithasol ac mae 2 o'n cyfarwyddwyr yn eistedd ar ei bwrdd.

Oherwydd toriadau i cyllid y Parc Cenedlaethol ni fydd modd i ni cynnal swydd llawn amser "Swyddog Awyr Agored" ond trwy symud ein cyllid craidd o gwmpas bydd modd cynnig swydd un diwrnod i barhau efo'n Clybiau Awyr Agored. Mae'r Fenter hefyd wedi ymrwmo i cynnal Swydd "Mentrau Cymunedol" efo cyllid ei hyn er mwyn parhau i edrych ar gyfleoedd posib i ddatblygu'r maes yn y Sir. Hefyd penderfynodd y Cyfarwyddwr Datblygu i fynd lawr i 4 diwrnod.

Er y toriadau hyn fe lwyddwyd i gynnal nifer cynyddol o ddigwyddiadau trwy ein rhaglen gwaith maes ddaru ddarparu 372 ( 331 y flwyddyn cynt) o ddigwyddiadau efo 5264 (4067 y flwyddyn cynt) yn mynychu. Eto mae llawer o ddigwyddiadau yma mewn cydweithrediad a'n 9 pwyllgor ardal sydd yn rhoi adnabyddiaeth arbennig i ni o'r Sir. Mae ein ddwy Swyddog ardal yn gweithio efo nhw i gesio codi ei chymhwysedd i ateb i broblemau sydd yn wynebu'r Gymraeg a'r llawr gwlad ar draws y Sir. Mae'r pwyllgorau yma hefyd yn ffordd wych o ddenu gwirfoddolwyr i'n cynorthwyo efo'r gwaith.

# Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

## Nadolig Llandudno

Roedd Nadolig Llandudno yn lwyddiant ysgubol gennym. Dyma 'r flwyddyn gyntaf i Menter Iaith Conwy drefnu rhaglen o eitemau Cymraeg ar y prif lwyfan yn Nadolig Llandudno a'r flwyddyn gyntaf hefyd i eitemau Cymraeg ymddangos yno o gwbl. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi 'w werthfawrogi. Bu canmoliaeth mawr am yr eitemau gwahanol a llawer wedi nodi adborth ar dudalen Nadolig Llandudno, ein e byst ac wrth drefnwyr yr wyl eu bod wedi mwynhau yr eitemau Cymraeg yn fawr. Roeddynt yn addas ar gyfer pob oedran ac roedd cynulleidfa fawr ar gyfer pob un. Gan fod cymaint wedi canmol yr eitemau Cymraeg wrth trefnwyr yr wyl, yr wythnos ganlynol fe wnaethant gysylltu i ddweud eu bod isio Menter Iaith Conwy fod yn gyfrifol am y prif lwyfan yn Nadolig Llandudno 2017 hefyd.

## Conwy a'r Rhyfel Mawr (Cynllun Treftadaeth Loteri)

Bu MIconwy yn llwyddiannus efo Cais i Gronfa Treftadaeth Loteri i gyflogi Swyddog i ddatblygu cynllun i amlygu effaith y rhyfel mawr ar Sir Conwy a'r Gymraeg. Penodwyd Eryl Jones yn swyddog i weithio ar y cynllun ac wedi dechrau ar waith ymchwil fydd yn sail ar gyfer llyfryn, safle we a drama efo disgyblion uwchradd ar hanes effaith y Rhyfel Mawr ar ardal Conwy.

### **Drama 'Y Rhwyg'**

'Y Rhwyg' wedi ei pherfformio'n gyhoeddus nos Fercher Ebrill 5ed yn neuadd Ysgol Dyffryn Conwy gyda cast o 25 o ddisgyblion (ac un gwestai arbennig sef y cerddor Gwilym Bowen Rhys). 17 o'r rhain o Ysgol Dyffryn Conwy ac 8 o'r Creuddyn. Talodd 56 o bobl i weld y ddrama. Roedd hyn yn ganlyniad i 23 o ymarferion rhwng cychwyn Ionawr a'r sioe ei hyn (7 o'r rhain yn sesiynnau ymarfer y caneuon, a'r lleill yn rai actio)

## Cyfieithu Cymunedol

Mae'r Cwmni nawr yn cynnal ei hun a 5 swydd a gyda throsiant blynyddol o dros 120k. Maent yn parhau i gynorthwyo'r sector cymunedol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Oherwydd y cynnydd mewn trosiant mae'r cwmni wedi cofrestru TAW. I ddechrau mewn ymdrech i gadw'r prisiau yn cymunedol mi benderfynodd i y Cwmni i ostwg ei brisiau rhywfaint. Yn anffodus oherwydd hyn a diffyg bydd-dal bu'r cwmni neud rhywfaint o golled ariannol y llynedd. Oherwydd mae Cyfarwyddwr Datblygu MIConwy, Huw Prys ac Esyllt Tudur yn cynorthwyo i newid y cwmni i fod yn fwy cystadleuol yn fasnachol. Maent wedi awgrymu fod y cwmni yn codi prisiau er mwyn iddynt gallu parhau i fod yn ariannol cynaladwy. Mae MIConwy hefyd wedi menthyg 5mil o bunioedd i Cyfieithu cymunedol i gynorthwyo efo'i lli arian.

## Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg

Mi agorodd y feithrinfa ym Medi 2015 a bydd yn cyflogi hyd at 9 a darparu gofal plant trwy'r Gymraeg i hyd at 28. Heb os un o lwyddiannau mawr MIConwy. Mi ddaeth Carwyn Jones Prif Weinidog Cymru i agor y meithrinfa ar y 4ydd o Fis Chwefror 2016. Mae hyd aty 30 o plant rwan yn cael gofal dyddiol yno.

## Yr Orsaf

Bwriad y Cynllun i'w adnewyddu'r adeilad a lleoli rhai o gynlluniau newydd MIConwy ynddo. Mae'n cael ei yrru gan Gwmni Tref Llanrwst sydd wedi cael ei sefydlu fel menter gymdeithasol. Maent wedi cael addewid o 70k i adnewyddu'r adeilad gan Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Rheilffyrdd er mwyn cychwyn y gwaith adnewyddu. Rydym wedi llwyddo i gael caniatâd cynllunio i ddatblygu'r orsef ers y llynedd ond mae'n anodd cael hyd i gyfalaf ychwanegol i addasu'r adeilad. Hefyd gwrthodwyd cais i LEADER er mwyn neud gwaith ymchwil i pa fath o wasanaethau sydd angen i'w ddatblygu yn yr ardal Wledig i neud yr adeilad yn hyfyw.

## EGNI

Oherwydd cwmp i'r tariffs sydd modd hawlio wrth gweithredu cynllun egni ni fydd y cynlluniau egni adnewyddol i greu adnoddau ariannol yn ardaloedd Penmachno, Ysbyty Ifan a Crafnant yn hyfyw.

Serch hyn trwy cymorth Gruff Wyn ein swyddog Egni mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo i cael ei cynllun hydro cymunedol dryw'r broses cynllunio ac wedi llwyddo i ddenu gwerth £400k mewn cyfranddaliadau o'r Gymuned. Mae'r cynllun wedi cael ei hadeiladu ac yn weithredol erbyn hyn. Bydd yn cynhyrchu gwerth 500,000 o oriau Kilowatt y flwyddyn ac £40k o arian ar gyfer gronfa cymunedol.

Rydym wedi llwyddo i ddenu ychydig o arian gan y Parc Cenedlaethol Eryri i gyflogi Gruff Wyn i edrych ar gynlluniau llai fydd yn arbed egni i adeiladau cymunedol.

## Y Farchnad Lafur Gymraeg

Llwyddwyd denu 20k gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun yma fydd yn cynnwys datblygu ceisiadau ariannol efo Cyllid Ewropiad i ariannu'r cynllun ar lefel genedlaethol. Byddwn yn cydweithio efo Prifysgol Aberystwyth i ddatblygu'r cynllun yma ym mhellach efo'r golwg o paratoi cais sylweddol i WEFO.

## Y Maes Awyr Agored a Bwthyn Ogwen

Fel esboniwyd yn adroddid 15-16 roedd yn siom enfawr i ni beidio gallu gwireddu ein cynlluniau i ddatblygu Bwthyn Ogwen. Hefyd oherwydd newid yn strwythur y cynllun Cynllun Datblygu Wledig nid oes modd ariannu grantiau i unigolion. Felly nid oes cyllid ar gael i weithio i gynyddu y niferoedd o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Serch hynny rydym wedi bod yn cyflogi swyddog Awyr Agored un diwrnod yr wythnos ac mae wedi llwyddo denu niferoedd parchus i'n clybiau Syrffio ac Eira fyrddio. Byddwn yn parhau ymchwilio i gyfieuen i ariannu hyfforddiant a swyddog.

## Ennill Tendr Blwyddyn y Chwedlau gan Cyngor Sir Conwy

Ceisiodd MIconwy am y tendr yma er mwyn gallu sicrhau fod lle teilwng i'r Gymraeg a'i adnabyddiaeth o chwedlau a hanesion yr ardal yn cael ei datblygu. Bydd yn arwain maes o law i cais llawn i'r Cronfa Treftadaeth Loteri a cronfeydd llai i ddatblygu'r cynllun.

## Gwaith Maes o ddydd i ddydd

Mae ein Swyddogion Maes yn brysur yn gweithredu ein targedau i Lywodraeth Cymru. Mae llawer iawn o'i gwaith yn cael ei weithredu trwy ein Pwyllgorau Ardal (Llanrwst, Penmachno, Cerrigydrudion, Capel Garmon, Glan Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan ac Abergele). Roedd yna cynnydd bach yn y nifer o weithgareddau a niferoedd oedd wedi mynychu y digwyddiadau. Mae hyn er ein fod ein grant craidd heb newid na chodi efo chwyddiant. Mae'r ffaith ein bod wedi llwyddo i ddenu arian gan y Gronfa Treftadaeth Loteri sydd wedi ychwanegu rhywfaint at ein gallu i gynnal digwyddiadau sydd yn cyfrannu at ein targedau.

Rydym hefyd yn parhau i gynnal clwb Syrffio Wythnosol a Chlwb Eira fyrddio. Erbyn hyn mae hyd at 40 yn mynychu yn wythnosol. Bu hefyd taith Eira fyrddio Blynyddol i Ffrainc efo 30 o pobl o wahanol.

Dros y tudalennau nesaf mae yna gofnod manwl o'r gwaith MIConwy a sut mae'n clymu mewn a chynorthwyo i gyflawni strategaeth iaith y Llywodraeth. Mae modd cael adroddiad llawn a manwl 30 tudalen sydd yn gofnod o pob gweithgaredd.

# Cyflawniad targedau Dangosydd Strategaeth Iaith 2016-17

Dangosydd Teuluoedd		Targed (Nifer y cytunwyd)	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm cyflawniad
Nifer o sgysiau 1:1 a geir gyda rhieni		600	202	110	0	60	372
Nifer o weithgareddau a drefnir i rieni		17	15	6	13	0	34
Nifer o blant sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu		250	122	78	224	0	424
Nifer o rieni sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu		250	101	66	184	0	351

Dangosydd Plant a Pobl Ifanc							
Nifer o weithgareddau a drefnir i blant a pobl ifanc		64	26	31	47	43	147
Nifer o blant a pobl ifanc yn mynychu gweithgareddau		1750	371	602	681	599	2253


Dangosydd Cymunedol							
Nifer o weithgareddau cymunedol a drefnir		26	23	25	22	21	91
Nifer o oedolion / rhieni yn mynychu gweithgareddau cymunedol		200	258	564	239	196	1257
Nifer o blant a phobl ifanc yn mynychu gweithgareddau cymunedol		100	131	115	250	113	609

Dangosydd Gwasanaethau Cymraeg							
Nifer o sefydliadau sector preifat sydd wedi derbyn cefnogaeth		150					0

Y Seilwaith							
Nifer o bobl sy'n derbyn cylchlythyrau							0
Nifer o bobl yn mynychu gweithgareddau cymunedol	nifer o ymweliadau i wefannau						0



# Strwythur Rheoli a Staffio



# Crynhodeb Ariannol 16-17

## Incwm

Bencythiadau £2,179.55

Swyddfa £4,127.07

Rhent £7,333.54

Teithio £0.00

Llywodraeth / MIC £105,570.00

Gwaith MIC / PIQASSO £1,515.00

EgNI £10,000.00

Mentrau Cymdeithasol - CAE £1,758.30

CTL £26,400.00

Urdd £5,000.00

Gweithgareddau Awyr Agored £1,875.00

Gweithgareddau Ysgolion £2,821.40

Trosglwyddiad £0.00

Blwyddyn y Chwedl £4,999.00

Arian i Bawb £3,618.00

Amrywiol £361.36

**Cyfanswm = A £177,558.22**

## Gwariant

Bencythiadau £167.57

Swyddfa £13,534.00

Rhent £12,000.00

Teithio Llywodraeth £4,379.66

Awyr Agored £5,024.46

Llywodraeth / MIC / Blwyddyn y Chwedl £97,161.60

EgNI £10,800.00

Mentrau Cymdeithasol - CAE £0.00

CTL £30,672.74

Gweithgareddau Awyr Agored £1,593.00

Gweithgareddau Ysgolion £305.00

Trosglwyddiad £0.00

Amrywiol £501.39

Marchnata £138.00

Costau Banc £132.25

Arian i Bawb £3,618.00

Costau MIC £1,000.00

Offer £0.00

**Cyfanswm = B £181,027.67**

**Gwahaniaeth A-B -£3,469.45**

**Balans Cychwynol £28,107.58**

**Balans Gorffenedig £24,638.13**

# I gloi

Mae amodau ariannol yn gynyddol anodd i Menter Iaith Conwy. Er fod yna cwtogi ar oriau staff hyn rydym wedi llwyddo i gynnal a chynyddu ein ystod o weithgareddau.

Ar lefel mwy strategol maen braf gweld cynlluniau uchelgeisiol sydd wedi bod o dan datblygiad yn cael ei gwireddu yn cael hyd i bywyd ei hynna'n. Heb os mae gweld cynllun y Feithrinfa yn dwyn ffrwyth yn un o uchel bwyntiau gwaith MIConwy. Ac mae'n braf gweld cynlluniau rydym wedi bod yn cynorthwyo fel Hydro Partneriaeth Ogwen yn dechrau cynhyrchu Trydan Gwyrdd trwy cyfrwng y Gymraeg.

Eto mae rhaid cydnabod fod gwaith addasu model busnes Cyfieithu Cymunedol yn cymryd llawer o adnoddau MIConwy ond mae'n fuddsoddiad da i un arall o'n prosiectau mwyaf arloesol sydd yn cyflogi 5 o bobl mewn ardal wledig.

Mae rhaid hefyd canmol ein staff a gwirfoddolwyr am ei ymroddiad. Credwn fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ganlyniadau Menter Iaith Conwy er gwaethaf cynni ariannol.

Un ffordd o arbed arian buasai cael perchnogaeth ar adeilad yn hytrach na rhentu. Mae sôn fod Cyngor Dre Llanrwst hefyd yn edrych ar perchnogi adeilad ac efalla bydd cyfleoedd i ni gydweithio efo nhw.

Meirion LI Davies  
(Cyfarwyddwr Datblygu)

Wedi cymeradwyo gan y Bwrdd

Cyfarwyddwr: Huw Prys

Dyddiad

Cyfarwyddwr Eirian Pierce Jones

Dyddiad